***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 2617

# Gorchymyn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trosglwyddo Ystad Weddilliol) (Cymru) 2009

**Enwi, Cychwyn a Chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trosglwyddo Ystad Weddilliol) (Cymru) 2009, a daw i rym ar 1 Hydref 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "corff Gwasanaeth Iechyd Gwladol" ("*National Health Service body*") yw'r corff perthnasol a restrir yng ngholofn 2 o'r Atodlen;

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") yw 1 Hydref 2009;

"yr ystad weddilliol" ("*the residual estate*") yw'r ystad honno a restrir yng ngholofn 1 o'r Atodlen.

**Trosglwyddo Ystad Weddilliol**

**3.**—(1) Trosglwyddir yr ystad weddilliol i'r corff Gwasanaeth Iechyd Gwladol perthnasol o'r dyddiad trosglwyddo.

(2) Rhaid i'r corff Gwasanaeth Iechyd Gwladol perthnasol gadw at delerau unrhyw les a drosglwyddwyd iddo yn rhinwedd yr erthygl hon.

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

29 Medi 2009